**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Jo Whitehead Mark Polin
Prif Weithredwr Cadeirydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

31 Mawrth 2022

Annwyl Mark a Jo,

## Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Hoffwn ddiolch i chi a'ch cydweithwyr am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 9 Mawrth.

Er ein bod yn ddiolchgar i chi am ymateb i'n cwestiynau yn ystod y sesiwn, roedd gennym bryderon am rai o'r atebion a gawsom gennych, ac rydym yn dymuno ceisio eglurder ynghylch rhai pwyntiau.

### Trawsnewid gwasanaethau a'r broses o newid

- Ar y cyfan, ymddengys nad oes unrhyw gynllun gweithredu cadarn ar gyfer sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen o fewn y Bwrdd Iechyd ('y Bwrdd'), nac unrhyw ymdeimlad o raddfa'r problemau dan sylw na'r angen brys i weithredu yn eu cylch. Ni ddarparwyd unrhyw eglurder ynghylch meysydd blaenoriaeth y Bwrdd. Yn ogystal, nid oedd y dystiolaeth yn cynnwys digon o fanylion, gan gynnwys amserlenni penodol, yn enwedig o safbwynt trawsnewid gwasanaethau fasgwlaidd ac iechyd meddwl. Cawsom ein siomi gan ddiffyg parodrwydd y weithrediaeth i gymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb dros y problemau sy'n bodoli yn y Bwrdd. Roedd llawer o gyfeiriadau at yr hyn y mae staff ar draws y sefydliad yn ei wneud, yn hytrach na'r hyn y mae uwch reolwyr yn ei wneud i osod cyfeiriad strategol a chymryd cyfrifoldeb.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Gwnaethom nodi bod y bwrdd mewn cyfnod o isgyfeirio, a bod fframwaith ymyrraeth wedi'i thargedu ar waith ar hyn o bryd. Gwnaethom ofyn am eglurhad ynghylch pa mor effeithiol y bu'r fframwaith hwnnw o ran cydnabod pryderon, cytuno ar strategaeth ar gyfer y dyfodol, a chefnogi gwelliannau. Ymddengys fod y fframwaith yn un eang ac uchelgeisiol.  Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a glywsom yn awgrymu bod llawer o'r ffocws wedi bod ar hunanasesu. Yn sgil hynny, rydym yn pryderu ynghylch y perygl y gallai'r broses hon fod yn rhy optimistaidd, gan na fydd yn canolbwyntio'n ddigonol ar flaenoriaethau clir, manylion, mynd i'r afael â gwendidau, a sicrhau tryloywder ynghylch hyd a lled y problemau.

- Yn ystod y cyfarfod, gofynnwyd ichi am yr heriau sydd ynghlwm wrth yr ardal ddaearyddol y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei chwmpasu. Gofynnwyd i chi roi eich barn ynghylch a yw'r sefyllfa hon wedi cyfrannu at unrhyw un o'r methiannau a nodwyd mewn perthynas â'r Bwrdd Iechyd dros y degawd diwethaf. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi barn bendant a chlir ynghylch a ydych yn credu bod maint daearyddol y Bwrdd Iechyd wedi cyfrannu at y methiannau hyn.

- Byddai hefyd yn ddefnyddiol deall sut y gall eich fframwaith gweithredu newydd fynd i'r afael â'r materion hyn, yn enwedig gan na chafodd ei gymeradwyo yn ystod cyfarfod bwrdd cyhoeddus y Bwrdd Iechyd ar 10 Mawrth. Yn sgil y cyfarfod hwn, nodaf bryderon y Cadeirydd ynghylch y posibilrwydd na fydd y fframwaith gweithredu newydd yn cael ei ddeall na'i dderbyn yn ddigonol gan uwch reolwyr a swyddogion gweithredol yn y sefydliad. Mae hyn yn peri cryn bryder, o gofio bod diffyg gweithredu rheolwyr o ran rhoi newidiadau ar waith o fewn y Bwrdd Iechyd yn fater y mae'r Pwyllgor wedi'i godi eisoes, ac yn fater sy'n parhau i fod o ddiddordeb iddo. A wnewch chi ddarparu manylion inni ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud i wella'r broses o ymgysylltu â rheolwyr ar bob lefel o'r bwrdd, a hynny er mwyn sicrhau bod fframweithiau gweithredu yn cael eu deall yn llawn, a bod rheolwyr yn cael eu cefnogi wrth iddynt gyflwyno newidiadau a gwelliannau sy'n amserol, yn ddiriaethol, yn weladwy ac yn gynaliadwy?

### Gwasanaethau iechyd meddwl

- A wnewch chi ddarparu ymateb manwl ynghylch sut yr ydych yn bwriadu mynd i'r afael â materion yn y maes hwn, gan gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu? A wnewch chi ddarparu manylion ynghylch eich amcanion a'ch blaenoriaethau, gan nodi sut rydych yn mesur perfformiad yn erbyn y rhain, gan gynnwys unrhyw weithgarwch meincnodi sy'n cymharu perfformiad y bwrdd â byrddau iechyd tebyg?

- Yn benodol, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu manylion ynghylch yr amserlenni ar gyfer yr eitemau a ganlyn a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â hwy:

    - rhwymynnau lefel is;

    - cymysgu carfannau o bobl sy'n cael gofal iechyd meddwl. Nodwn y dystiolaeth a gafwyd gan Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, sef y byddai'r broses hon yn dod i ben yn raddol o 21 Ionawr 2022 ymlaen. Nodwn hefyd y ffaith na chafodd y terfyn amser hwn ei fodloni.

- Wrth gymryd tystiolaeth, clywsom y byddai'r arferion hyn yn cael eu dirwyn i ben o fewn misoedd, a chlywsom fod disgwyl i'r Pwyllgor gael tystiolaeth bod y targed hwn wedi'i gyflawni erbyn 1 Medi 2022. Nid yw hyn yn ddigonol, ac rydym yn parhau i bryderu ynghylch cyflymder y newid sy'n digwydd ym maes gwasanaethau iechyd meddwl. Rydym yn parhau i ddisgwyl gweithredu ynghylch llawer o'r meysydd yr ydym yn pryderu yn eu cylch, a hynny er gwaethaf yr argymhellion a'r casgliadau sydd i'w gweld mewn adroddiadau amrywiol dros y degawd diwethaf, gan gynnwys adroddiadau Holden, Ockenden, HASCAS a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Rydym hefyd yn pryderu ynghylch presenoldeb parhaus swyddogion gweithredol a rheolwyr yn y Bwrdd Iechyd a oedd yn gysylltiedig â chasgliadau'r adroddiadau hyn, ac ynghylch eu gallu i gyflawni'r newidiadau mewnol y mae eu hangen.

- Rydym hefyd yn nodi'r sylwadau a wnaed yn ddiweddar gan y Prif Weinidog am y ffaith "nad yw'r gwelliant i wasanaethau iechyd meddwl yn y gogledd wedi bod mor gyflym ag y mae angen iddo fod", a'r ffaith ei bod yn "amlwg bod camau pellach y mae angen eu cymryd i wneud yn siŵr, ym mhob agwedd ar wasanaethau iechyd meddwl, bod pobl yn y gogledd yn cael y gwasanaeth y maen nhw'n ei haeddu." Mae'n ymddangos bod y dybiaeth hon wedi'i hategu gan eich hunanasesiad ar gyfer y Fframwaith Ymyrraeth wedi'i Thargedu, sy'n dangos bod iechyd meddwl ar Lefel 1 yn unig ym mis Tachwedd 2021.

- Wrth inni gymryd tystiolaeth, gwnaethom ofyn am eglurder ynghylch pa faterion sydd eto i'w trafod a pham. Nid oedd yr atebion a gawsom yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen arnom fod gwelliannau'n cael eu cyflawni. Er enghraifft, clywsom am y gwaith sy'n cael ei wneud ar achredu wardiau. Er bod rhai wardiau wedi cyrraedd y lefel arian, mae wardiau eraill yn parhau i fod ar y lefel gwyn, gan nad oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud. A fyddai modd i chi ddarparu manylion i ni ynghylch y dull achredu a'r hyn y mae'n ei olygu yn ymarferol, gan gynnwys sut mae'n cael ei weithredu, yr hyn y mae'n ei fesur a sut mae staff yn cael eu cefnogi i gyrraedd pob lefel o achrediad? A fyddai modd i chi egluro pam nad yw'r ddwy ward sy'n parhau i fod ar y lefel gwyn wedi gwneud unrhyw gynnydd?

- Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod pryderon ynghylch gallu cyfleusterau uned Hergest i ddarparu gwasanaethau clinigol modern mewn modd diogel. Nododd y Cadeirydd hefyd y byddai'r Bwrdd Iechyd wrth ei fodd yn gallu cyflwyno achos busnes ar gyfer uned Hergest, ond bod y darlun hwn yn cael ei gymhlethu gan brinder cyfalaf yn

genedlaethol. Mae'r Pwyllgor am gael rhagor o fanylion am yr ymdrechion i greu amgylchedd diogel yn uned Hergest, ac am yr opsiynau cyllidol a gafodd eu hystyried ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau hyn, fel ceisio trosi cyllid refeniw yn gyllid cyfalaf.

### Gwasanaethau Fasgiwlar

- Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y mater hwn, a byddai'n ddiolchgar i gael eich ymateb i adroddiad Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr ar lawdriniaeth fasgwlaidd yn y Bwrdd Iechyd, ac i glywed am y camau yr ydych yn eu cymryd i ymateb yn benodol i'r argymhellion a wneir ynddo, ynghyd â'r amserlen ar gyfer gweithredu. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn disgwyl y byddai'r Bwrdd Iechyd yn gallu dangos gwelliant sylweddol, yn unol â disgwyliadau'r Gweinidog, o fewn tri mis. Nododd hefyd fod diweddariadau misol ynghylch y cynnydd a wneir yn erbyn y materion a amlygwyd yn yr adroddiad yn cael eu hanfon at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a bod y wybodaeth ddiweddaraf wedi'i hanfon ati ar 7 Mawrth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech rannu'r diweddariad hwn, ac unrhyw ddiweddariadau yn y dyfodol, gyda'r Pwyllgor hefyd.

### Rheolaeth Ariannol

- Nododd y Pwyllgor eich sylwadau ar gynaliadwyedd ariannol. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn teimlo nad oedd digon o fanylion wedi'u darparu o ran cynnal cydbwysedd cyllidol ar ôl blwyddyn ariannol 2023-24, pan ddaw y cyllid ychwanegol a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan Lywodraeth Cymru i ben. Dywedodd eich Cyfarwyddwr Cyllid: *"We know that we have opportunities that are between £70 million and £110 million, but to actually deliver those is going to be difficult and will require a change in practice both from an operational and a clinical perspective. We don't anticipate it in the life of the current IMTP"*. Mae'r Pwyllgor yn dymuno gwybod mwy am eich cynllunio ariannol hirdymor, ac yn dymuno cael syniad ynghylch sut y gellir sicrhau cydbwysedd ariannol heb y cyllid ychwanegol hwn.

- Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor fod cyfle i ddatgloi'r arbedion trawsnewidiol sydd, ym marn y Bwrdd, yn bodoli yng Ngogledd Cymru. A fyddai modd i chi ddarparu rhagor o fanylion ynghylch natur yr arbedion trawsnewidiol hyn a natur y newidiadau arfaethedig i wasanaethau, gan nodi'r amserlen ar gyfer eu cyflawni?

- Roedd eich Cyfarwyddwr Cyllid yn cydnabod y byddai datblygu canolfan driniaeth ranbarthol yn cael effaith sylweddol, a'i fod yn brosiect hollbwysig i'r Bwrdd Iechyd. Pa wasanaethau y bydd y ganolfan yn eu darparu, a beth yw'r amserlen ar gyfer rhoi'r prosiect ar waith?

Mewn trafodaeth breifat ynghylch y dystiolaeth a gafwyd, cytunodd yr Aelodau i ddychwelyd at y materion uchod gyda chi yn nhymor yr hydref 2022, ar ôl iddynt ystyried eich ymateb i'r pwyntiau uchod. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 30 Ebrill 2022.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cofion,



Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor